Wylfa ac Alwminiwm Môn

Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol

Crynodeb Gweithredol

Chwefror 2006



Wylfa ac Alwminiwm Môn: Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol – Crynodeb Gweithredol

1. Bydd y bwriad i gau Gorsaf Bŵer Wylfa, ac i gau'r gwaith sy'n cael ei redeg gan Alwminiwm Môn o ganlyniad, yn cael effaith hynod andwyol ac efallai hirdymor ar Ynys Môn. Ynys Môn yw un o'r ardaloedd mwyaf economaidd difreintiedig yng Nghymru, gyda lefelau isel o weithgarwch economaidd a thwf economaidd cyffredinol y pen sydd prin hanner (53%) y cyfartalog ar gyfer y DU.

Yr Effaith Bosibl

2. Mae Wylfa, Alwminiwm Môn a'r busnesau sy'n dibynnu arnynt yn cyfrif am bron i 9% o'r holl gyflogaeth ar yr Ynys.

3. Mewn cyfnod o dair blynedd, rhwng 2009 a 2012, amcangyfrifir y bydd dadgomisiynu Wylfa a chau Alwminiwm Môn yn arwain at golli 1,500 o swyddi a £42.2 miliwn mewn cyflogau o economi Ynys Môn.

4. Bydd colli cyflogaeth a cholli incymau lleol o ganlyniad i gau ddau'r waith yn cael effaith gymdeithasol a chymunedol bellach o ran yr effeithiau ar fudo, poblogaeth a safonau byw.

5. Disgwylir y bydd cau'r ddau waith yn arafu twf y boblogaeth yn sylweddol ac yn newid strwythur y boblogaeth hefyd, gyda chyfran y bobl dros 65 oed yn cynyddu tra bo'r grwpiau oed iau yn prinhau. Bydd yr effaith ar y boblogaeth yn ddifrifol o bosibl yn Amlwch, Caergybi a'r cymunedau yng ngogledd yr Ynys.

6. Disgwylir y bydd colledion swyddi yn dyblu nifer yr ardaloedd ar Ynys Môn sy'n profi cyfraddau diweithdra uchel iawn. Eto, bydd yr effaith fwyaf yn cael ei theimlo yn y cymunedau yng ngogledd yr Ynys.

7. Disgwylir y bydd enillion cyfartalog ar Ynys Môn yn gostwng o 5% o ganlyniad i gau'r ddau waith, a bydd colli £42 miliwn mewn cyflogau ymhlith gweithwyr Wylfa ac Alwminiwm Môn yn gostwng yr incwm y pen i lefel (49%) sy'n hanner y cyfartalog ledled y DU.

Y Ffordd Ymlaen

8. Mae Strategaeth Adfywio Economaidd Ynys Môn yn annhebygol o fod yn ymateb digonol i'r her hon. Yr oedd ei tharged o greu 2,000 o swyddi newydd yn uchelgeisiol dros ben heb gau'r ddau waith. Bydd eu cau yn cynyddu maint yr her o adfywio economi Ynys Môn yn sylweddol.

9. Yng ngoleuni'r ystyriaethau a'r sialensau uchod, mae angen dull mwy ysgytwol o geisio datrys y sefyllfa sy'n seiliedig ar obeithion mwy credadwy ond uchelgeisiol ar gyfer dyfodol economaidd yr Ynys. Dylai rhanddeiliaid a phartneriaid yr Ynys weithio â'i gilydd i wella cystadleurwydd lleoliad Ynys Môn a datblygu economi sy'n fwy gwydn ac wedi ei gosod ar nifer o 'gonglfeini' twf.

10. Mae gan Ynys Môn *rywfaint* o amser i ddatblygu ei strategaeth o ystyried yr amserlen ddadgomisiynu. Er hynny, bydd angen mabwysiadu agweddau newydd at ddatblygu dros y deng mlynedd nesaf.

11. Bydd angen gweithredu penodol i wella cystadleurwydd lleoliad yr Ynys yng nghyswllt: seilwaith a datblygu safleoedd, yn enwedig yng nghyswllt rheoli traffig yn well / mwy o gapasiti ar Bont Borth; datblygu safleoedd ac adeiladau i ddenu busnesau uwch dechnoleg; a gweithredu yng nghyswllt sgiliau – yn enwedig i ail hyfforddi gweithwyr Wylfa ac Alwminiwm Môn.

12. Fodd bynnag, yn ogystal â chadw elfennau o'r strategaeth bresennol, o ran datblygu safleoedd busnes a thwristiaeth, mae angen gweithredu i ehangu sgôp y strategaeth i sicrhau twf y sylfaen economaidd. Dylai blaenoriaethau newydd ganolbwyntio ar: ddatblygu gweithgareddau academaidd ar Ynys Môn gyda'r nod o greu un is-gampws neu ragor yno; datblygu o leiaf un prif gyrchfan gwyliau / cyrchfan twristiaeth; datblygu sgiliau lleol, yn enwedig sgiliau entrepreneuraidd; a datblygu cyfleoedd i godi tai er mwyn denu aelwydydd ac incwm i'r Ynys fel y gellir cryfhau gwasanaethau a chymunedau lleol.

13. Yr ydym yn cydnabod y bydd angen gwneud rhai dewisiadau anodd. Mae mwy o ddatblygiadau tai yn cyflwyno risg o greu cymunedau noswylio, ond rhaid derbyn nad yw o hyd yn bosibl cydleoli cartrefi a swyddi ac y gallai codi tai newydd greu cymunedau sefydlog gyda photensial datblygu hirdymor. Nid yw o hyd yn bosibl creu gwaith yn yr union leoedd y cafodd swyddi eu colli ac mae'n debyg y bydd economi'r Ynys yn symud yn fwy eto i'r de. Mae'n debyg bod hyn yn anorfod, ond yr ymateb gorau fydd gweithredu cadarnhaol i wella'r cysylltiadau trafnidiaeth o ogledd yr Ynys i'r meysydd twf cyflogaeth.

14. Bydd angen gwneud ymdrech arbennig yn yr ardaloedd a fydd yn cael eu taro waethaf yng ngogledd yr Ynys i hybu datblygu ac adfywio. Credwn y dylid creu endid arbennig – cwmni adfywio – a fydd yn cynnwys yr awdurdod lleol a'r holl randdeiliaid eraill, i ddatblygu a gweithredu strategaeth adfywio leol ar gyfer yr ardal hon.